Nodiadau Cyfarwyddyd ar Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio)(Rhif 2) 2004

NODYN PWYSIG

1. Mae'r nodiadau hyn wedi'u cynhyrchu gyda'r nod o ddarparu cyfarwyddyd anffurfiol, anstatudol ar y Rheoliadau canlynol:

   - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004
   - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Lloegr) (Rhif 2) 2004
   - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Yr Alban) (Rhif 2) 2004
   - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) (Rhif 2) 2004

2. Bwriedir i'r nodiadau gael eu darllen ar y cyd â'r

   - Rheoliadau a restrwyd uchod;
   - Cyfarwyddeb 2003/89/EC yn diwygio Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 20 Mawrth 2000 ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-Wladwriaethau mewn perthynas â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd;
   - Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'u diwygiwyd), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar nodi cynhwysion bwydydd;
   - Cyngor Labelu Clir yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a gyhoeddwyd yn 2002;
   - Nodiadau cyfarwyddyd perthnasol eraill sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (**www.food.gov.uk**); a
   - Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

3. Darparwyd yr enghreifftiau yn y nodiadau er eglurhad yn unig. Cynghorir y darllenydd i gael cyngor pellach gan eu hawdurdod cartref ar unrhyw ymholiadau penodol.

4. Ni ddylid cymryd y nodiadau cyfarwyddyd, gan gynnwys cyngor ac arferion gorau, a'r enghreifftiau fel datganiad neu ddehongliad awdurdodol o'r gyfraith, gam mai dim ond y

Llysoedd sydd â'r pŵer hwn a hwy fydd yn penderfynu yn y pen draw, dan amgylchiadau arbennig, a oes trosedd wedi'i chyflawni.

5. Ein nod wrth gynhyrchu'r cyngor hwn yw cynorthwyo:

- gwneuthurwyr, cynhyrchwyr, adwerthwyr ac arlwywyr i fabwysiadu arferion labelu cyson a thryloyw.

- awdurdodau gorfodi i nodi a mynd i'r afael â labelu camarweiniol.

- defnyddwyr trwy annog y diwydiant i fabwysiadu arferion labelu cyson a thryloyw wrth ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol.

Nodiadau Cyfarwyddyd

Cyflwyniad
Mae Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Lloegr) (Rhif 2) 2004, yn y nodiadau hyn y cyfeirir atynt fel 'y Rheoliadau', yn gweithredu, yn Lloegr, Gyfarwyddeb 2003/89/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 10 Tachwedd 2003 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2000/13/EC o ran nodi'r cynhwysion sydd mewn bwydydd. Daeth y Rheoliadau i rym ar 26 Tachwedd 2004 (o'r dyddiad pryd y gellir gwerthu nwyddau sy'n cydymffurfio). Gwaherddir nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau newydd rhag cael eu gwerthu o 25 Tachwedd 2005, ond gellir gwerthu cynhyrchion wedi'u labelu cyn y dyddiad hwn tra bo cyflenwad ar gael.

Mae'r Rheoliadau yn amlinellu rheolau labelu newydd ar nodi cynhwysion, yn enwedig cynhwysion alergenig mewn bwydydd wedi'u rhag-becynnu, gan gynnwys diodydd alcoholaidd.

Pwrpas
Cynhyrchwyd y nodiadau hyn gyda'r nod o roi cyfarwyddyd anffurfiol, anstatudol ar y Rheoliadau a dylid eu darllen ar y cyd â hwy. Nid yw'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn hollgynhwysol.

Statws
Cyngor yw'r nodiadau yn unig. Dylid datrys unrhyw ymholiadau cyfreithiol trwy gyfeirio at y Rheoliadau neu Gyfarwyddebau 2003/89/EC a 2000/13/EC. Dylid troi at swyddogion gorfodi am gyngor ar unrhyw bwynt ynglŷn â'r ddeddfwriaeth, er, yn y pen draw, dim ond y Llysoedd all ddehongli'r gyfraith gydag unrhyw awdurdod.

Dehongli'r Rheoliadau
Yn y nodiadau hyn rydym wedi nodi'r arferion sydd yn dderbyniol yn ein barn ni. Fodd bynnag, nid yw'n cyngor yn awdurdodol. Rydym yn annog yn gryf y dylai'r rhai sy'n bwriadu dilyn arferion lle mae'n bosib dehongli'r Rheoliadau mewn mwy nag un ffordd, os yn bosib, ofyn am gytundeb eu Hawdurdod Cartref (h.y. yr awdurdod lleol a ddynodwyd fel y lleoliad i wneud penderfyniadau perthnasol ar gyfer eu menter) cyn gweithredu unrhyw gamau pendant.

Yn achos busnesau bach neu unigolion nad oes ganddynt Awdurdod Cartref, dylid cyflwyno ymholiadau i'r awdurdod gorfodi, hynny yw, yr Adran Safonau Masnach neu Iechyd yr Amgylchedd yn eu hawdurdod lleol eu hunain. Ar gyfer cwmnïau sydd am fewnforio i'r DU, dylid cysylltu ag Awdurdodau Iechyd y Porthladdoedd neu Awdurdodau Lleol Porthladdoedd. Dylai asiantwyr mewnforio yn y DU gysylltu â'r awdurdod lleol lle mae prif swyddfa eu busnes wedi'i lleoli.

Trosolwg cryno o'r rheolau newydd

1. Diwygiad o Gyfarwyddeb 2000/13/EC yw Cyfarwyddeb 2003/89/EC, yn bennaf diwygiad o Erthygl 6 y gyfarwyddeb hon ar ddiffinio a datgan cynhwysion gan gynnwys adchwanegion. Mae'n dileu dwy eitem yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2000/13/EC ('ffrwythau grisialog' a 'llysiau'), fel na ellir defnyddio'r termau hyn mwyach fel "enwau categori" heb nodi eu cynhwysion. Mae hefyd yn cyflwyno rhestr o 12 o gynhwysion y mae'n hysbys eu bod yn achosi alergedd ac anoddefgarwch (Atodiad i Gyfarwyddeb 2003/89/EC ac Atodlen AA1 y Rheoliadau).[1]

2. Mae'r rheoliadau newydd yn mynnu bod bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion ar y rhestr yn Atodlen AA1[1] neu eu deilliadau yn cyfeirio'n glir at yr enw yn Atodlen AA1 lle bynnag y'u defnyddir mewn bwydydd wedi'u rhag-becynnu gan gynnwys diodydd alcoholaidd. Mae yna eithriadau ar gyfer bwydydd a werthir yn rhydd, bwyd wedi'i rag-becynnu i'w werthu'n uniongyrchol a rhai cynhyrchion melys ffansi. Fodd bynnag, mae'r rheolau hyn yn berthnasol i becynnau bychain neu rai poteli gwydr y gellir eu hail-ddefnyddio.

   Nodyn pwysig: Mae yna eithriadau dros dro hefyd yn achos cynhwysion analergenig sy'n deillio o alergenau – gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygiad) Rhif 2 2005 (fel y'u diwygiwyd)

3. Mae'r rheolau newydd yn dileu'r hyn a elwir yn 'rheol 25%', lle nad oes yn rhaid i gydrannau unigol cynhwysyn cyfansawdd sy'n llai na 25% o'r cynnyrch gorffenedig gael eu rhestru.

4. Er mwyn gallu ystyried cyfyngiadau technegol wrth gynhyrchu bwydydd, mae'r rheolau newydd yn caniatáu'r rhanddirymiadau canlynol lle mae'r cynnyrch gorffenedig yn cynnwys llai na 2% o gynhwysyn:

   - Lle mae cyfansoddiad y cynhwysyn cyfansawdd yn cael ei ddiffinio yng nghyfraith yr UE (e.e. jam a siocled), nid oes yn rhaid rhestru'r cynhwysion.
   - Lle mae'r cynhwysyn cyfansawdd yn fwyd nad oes angen cael rhestr gynhwysion ar ei gyfer, nid oes yn rhaid rhestru'r cynhwysion.
   - Nid oes angen rhestru cymysgedd o berlysiau a sbeisys ar wahân.
   - Ni fydd yn rhaid rhestru cynhwysion yn ôl eu pwysau gyda'r pwysau mwyaf gyntaf
   - Gellid nodi bod cynhwysion sy'n debyg neu y gellir eu cyfnewid wedi'u cynnwys trwy ddweud "yn cynnwys....a/neu..." dan rai amgylchiadau.

   Nid yw'r rhanddirymiadau hyn yn dirymu'r gofynion labelu alergen.

5. Mae'r rheolau newydd yn ychwanegu categori pellach o sylweddau nad oes yn rhaid eu henwi.

---

[1] Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd technegol a fydd o gymorth i ddehongli'r rhestr yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 2003/89/EC fel bo angen. Gellir diweddaru'r rhestr (trwy weithdrefn Pwyllgor Sefydlog) ar sail gwybodaeth wyddonol wedi'i dilysu. Gallai hyn ychwanegu neu ddileu eitem o'r rhestr.

Trefn y Rheoliadau

Teitl, cymhwyso a chychwyn (rheoliad 1)
Yn cynnwys y teitl cymwys ar gyfer dyfynnu'r Rheoliadau - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Lloegr) (Rhif 2) 2004; y dyddiad dod i rym - 26 Tachwedd 2004; y wlad y mae'r Rheoliadau'n berthnasol iddi - Lloegr.

Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (rheoliad 2)
Yn darparu ar gyfer diwygio Rheoliadau 1996 ymhellach fel y'u hamlinellir yn rheoliadau 3 i 15 y Rheoliadau.

Dehongli (rheoliad 3)
Yn cynnwys diffiniad o 'gynhwysyn alergenig' trwy gyfeirio at Atodlen AA1 a'r diffiniad newydd o 'Gyfarwyddeb 2003/13'.

Eithriadau (rheoliad 4)
Nid yw pecynnau bach a rhai poteli gwydr gyda marciau parhaol sy'n dod i'r wlad o Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE neu Ardal Economaidd Ewrop wedi'u heithrio o'r gofynion labelu alergen.

Trefn y cynhwysion (rheoliad 5)
Yn amlinellu'r darpariaethau newydd ar gyfer y drefn y gellir rhestru'r cynhwysion dan amgylchiadau arbennig.

Enwau'r cynhwysion (rheoliad 6)
Yn sicrhau bod gofynion labelu alergen yn dirymu'r rheolau ar nodi enwau generig, cyflasynnau ac adchwanegion.

Cynhwysion cyfansawdd (rheoliad 7)
Yn amlinellu'r darpariaethau newydd sy'n eithrio cynhwysion cyfansawdd penodol o'r rhestr gynhwysion dan rai amgylchiadau ac yn diddymu eithrio cynhwysyn cyfansawdd 25% o'r rhestr.

Cynhwysion nad oes angen eu henwi (rheoliad 8)
Yn ychwanegu cynhwysyn arall at y rhai nad oes angen eu henwi.

Bwydydd nad oes angen iddynt ddangos rhestr gynhwysion (rheoliad 9)
Yn sicrhau bod y gofynion labelu alergen yn dirymu'r eithriadau ar gyfer bwydydd nad oes yn rhaid iddynt ddangos rhestr gynhwysion.

Bwydydd a werthir heb eu rhag-becynnu neu wedi'u rhag-becynnu i'w gwerthu'n uniongyrchol a chynhyrchion melys ffansi (rheoliad 10)
Yn berthnasol i fwyd sy'n cael ei werthu mewn lle nad yw'r sefydliad arlwyo (hynny yw bwyd nad yw wedi'i rag-becynnu, bwyd tebyg a rhai cynhyrchion melys ffansi) o'r gofynion labelu alergen.

Rhai bwydydd a werthir mewn sefydliadau arlwyo (rheoliad 11)
Yn eithrio bwyd a werthir mewn sefydliadau arlwyo nad yw wedi'i rhag-becynnu neu sydd wedi'i rag-becynnu i'w werthu'n uniongyrchol o'r gofyniad labelu alergen.

Bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion alergenig neu eu deilliadau (rheoliad 12)
Yn amlinellu darpariaethau newydd ar gyfer nodi cynhwysion Atodlen AA1 yn achos bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion o'r fath a'r deilliadau mewn bwyd wedi'i rag-becynnu.

Darpariaethau trosiannol (rheoliadau 13)
Yn amlinellu darpariaethau trosiannol ar gyfer cymhwyso'r rheolau newydd.

Mewnosod Atodlen AA1 yn Rheoliadau Lableu Bwyd 1996 (rheoliad 14)
Yn nodi lle dylid mewnosod Atodlen AA1 newydd yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996.

Diwygio Atodlen 3 i Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (rheoliad 15)
Yn dileu eitemau sy'n ymwneud â 'ffrwythau grisialog' a 'llysiau' o Atodlen 3 (enwau cyffredinol mewn rhestr o gynhwysion) yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996.

Cwestiynau ac Atebion

Dyddiad dod i rym

1. Pryd mae'r Rheoliadau'n dod i rym? *Rheoliad 1 a Rheoliad 13*

1.1 Daeth y Rheoliadau i rym ar 26 Tachwedd 2004, ac o'r dyddiad hwnnw gellir gwerthu cynhyrchion sy'n cydymffurfio â'r rheolau newydd. Gwaherddir cynhyrchion a gynhyrchwyd ac a labelwyd ar ôl 25 Tachwedd nad ydynt yn cydymffurfio rhag cael eu gwerthu o 25 Tachwedd 2005. Serch hynny, gellir gwerthu cynhyrchion wedi'u labelu cyn y dyddiad hwn tra bo cyflenwad ar gael.

Cwmpas y rheolau newydd ar labelu alergen

2. Pa gategorïau o fwyd sy'n cael eu cwmpasu gan y rheolau newydd?

2.1 Mae cwmpas cymhwyso'r Rheoliadau yn cynnwys bwyd wedi'i rag-becynnu yn gyffredinol gan gynnwys diodydd alcoholaidd.

3. Beth am labelu alergen mewn bwydydd heb ei rhag-becynnu a bwydydd a werthir mewn sefydliadau arlwyo? *Rheoliad 11*

3.1 Nid yw'r rheolau newydd yn berthnasol i fwydydd a werthir yn rhydd (heb eu rhag-becynnu) neu fwydydd wedi'u rhag-becynnu ar gyfer eu gwerthu'n uniongyrchol. Mae'r Asiantaeth yn archwilio opsiynau i wneud yn siŵr bod y defnyddiwr, dan yr amgylchiadau hyn, yn dal i gael gwybodaeth ddigonol.

4. Beth am fwydydd mewn pecynnau bach a rhai poteli gyda marciau parhaol? *Rheoliad 4 o'i darllen gyda Rheoliad 26 y Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 fel y'u diwygiwyd*

4.1 Bydd angen i'r cynhyrchion hyn nodi eu bod yn cynnwys alergenau penodol a'u deilliadau, er na fydd yn rhaid iddynt ddarparu rhestr lawn o gynhwysion.

5. A yw'r rheolau newydd yn berthnasol i ddefnyddio rhybuddion 'gall gynnwys elfen hybrin o gnau' i nodi trawshalogiad alergenau posib?

5.1. Nac ydynt. Mae'r rheolau newydd yn ymwneud â nodi cynhwysion Atodlen AA1 a'u deilliadau sydd wedi'u hychwanegu'n fwriadol wrth baratoi bwydydd. Nid oes gofyniad cyfreithiol yn y Rheoliadau i labeli bwyd gynnwys rhybuddion 'gall gynnwys' neu elfen hybrin o gnau i nodi trawshalogiad alergenau posib, ond mae cynhyrchwyr ac adwerthwyr yn darparu'r wybodaeth o'u gwirfodd er mwyn nodi y

gall bwydydd gynnwys cynhwysion anfwriadol y gall pobl fod ag alergedd iddynt mewn bwydydd wedi'u rhag-becynnu.

5.2. Mae defnyddwyr wedi mynegi pryderon y gallai defnyddio rhybuddion elfen hybrin o gnau yn amhriodol gyfyngu ar ddewis y defnyddiwr a thanseilio rhybuddion dilys. Mae Cynllun Strategol 2005-2010 yr Asiantaeth yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau ar y defnydd priodol a chymesur o ddatganiadau labeli i rybuddio defnyddwyr sydd ag alergedd o'r risg o drawshalogi gyda chnau, hadau ac alergenau eraill erbyn 2006. Mae'r Asiantaeth wedi drafftio canllawiau gyda rhanddeiliaid, a oedd yn destun ymgynghoriad ym mis Medi 2005. Bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried a'r testun yn cael ei ddiwygio fel bo angen. Disgwylir cyhoeddi fersiwn terfynol ganol 2006.

6. A yw'r rheolau newydd yn cwmpasu honiadau bod cynhyrchion yn 'rhydd o alergen arbennig?

6.1 Nac ydynt. Ar hyn o bryd, nid oes rheoliadau penodol yn cwmpasu honiadau o'r fath er bod darpariaethau cyffredinol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn datgan na ddylai honiadau o'r fath fod yn ffug neu gamarwain mewn perthynas â natur, sylwedd neu ansawdd y bwyd. Dylai gweithgynhyrchwyr sicrhau fod ganddynt Sicrwydd Ansawdd a GMP digonol i gefnogi unrhyw honiadau a wneir.

Rhestru cynhwysion

7. A oes unrhyw newidiadau i'r ffordd y gall cynhwysion gael eu rhestru? *Rheoliadau 5 a 15*

7.1 Mewn rhai achosion, oes.

7.2 Mae rheoliad newydd 15 yn dileu'r termau "ffrwythau grisialog" a "llysiau" o'r rhestr enwau a ganiateir. Mae hyn yn golygu y bydd y termau hyn gyda'i gilydd yn y dyfodol ond yn gallu cael eu defnyddio os bydd rhestr o'r mathau o lysiau/ffrwythau sydd dan sylw yn dilyn ac, os yn briodol, y gosodiad "mewn cyfrannau amrywiol".

7.3 Mae rheoliad newydd 13(5) yn dileu 'cnau cymysg' o'r eithriadau yn rheoliad presennol 13(5) y Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 fel y'u diwygiwyd.

7.4 Mae rheoliad newydd 13(7) yn caniatáu ar gyfer cynhwysion y mae pob un ohonynt yn cyfrif am lai na 2% o'r cynnyrch gorffenedig i gael eu rhestru mewn trefn wahanol ar ôl cynhwysion eraill.

7.5 Mae rheoliad newydd 13(8) yn caniatáu i gynhwysion sy'n debyg neu y gellir eu cyfnewid am ei gilydd nad ydynt yn debygol o newid y natur neu'r gwerth tybiedig ac sy'n llai na 2% o'r cynnyrch gorffenedig, gael eu rhestru gan ddefnyddio'r ymadrodd 'yn cynnwys a/neu', lle mae mwy nag un a dim mwy na dau o gynhwysion o'r fath wedi'u cynnwys yn y cynnyrch gorffenedig. Er enghraifft: mathau o ffrwythau sych y winwydden; mathau o groen sitrws; ffynonellau o olew llysiau; surop glwcos neu ddecstros. Mae'r gofynion labelu alergen yn dirymu'r consesiwn hwn. Hefyd, nid yw'n berthnasol yn achos cynhwysion sy'n adchwanegion.

8. Beth am eithrio cynhwysion cyfansawdd 25%? *Rheoliad 7*

8.1 Mae'r rheolau newydd yn dileu'r eithriad o ran cynhwysyn cyfansawdd 25%. Ac eithrio ychydig iawn o achosion, bellach bydd yn rhaid i'r holl gynhwysion gael eu rhestru ar labeli bwyd. Mae'r gofynion labelu alergenau yn dirymu'r eithriadau hyn.

9. A oes unrhyw newidiadau yn y cynhwysion nad oes yn rhaid eu rhestru? *Rheoliad 7*

9.1 Oes. Mae'r rheoliadau newydd yn eithrio nifer fach o gynhwysion cyfansawdd o'r gofyniad i restru eu cynhwysion yn yr achosion canlynol:

(a) os yw'r cynhwysyn cyfansawdd yn fwyd y disgrifir ei gyfansoddiad yn neddfwriaeth y Gymuned (er enghraifft, braster y gellir ei daenu, cynhyrchion coco a siocled, sudd ffrwythau a chynhyrchion tebyg, jam ffrwythau, jeli, marmalêd a phiwrî cnau castan wedi'i felysu) ac mae'n llai na 2% o'r cynnyrch gorffenedig ac

(b) os yw'r cynhwysyn cyfansawdd wedi'i wneud bron yn gyfan gwbl o un cynhwysyn sylfaenol (er enghraifft, dŵr carbonedig, finegr brag, caws, menyn, llaeth wedi eplesu a hufen dan rai amgylchiadau), ac

(c) os yw'r cynhwysyn cyfansawdd wedi'i wneud o gymysgedd o sbeisys neu berlysiau neu'r ddau ac yn llai na 2% o'r cynnyrch gorffenedig.

9.2. Mae'r gofynion labelu alergenau yn dirymu'r eithriadau hyn ac maent hefyd yn destun rheolau arbennig yn achos cynhwysion sy'n adchwanegion neu sydd wedi'u harbelydru.

Nodi cynhwysion alergenig

10. Pa gategorïau o gynhwysion sy'n cael eu cwmpasu gan y gofynion labelu alergenau newydd?

10.1 Mae pob cynhwysyn a ychwanegir a chydrannau cynhwysion a ychwanegir wedi'u cwmpasu gan y gofynion newydd, os ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnyrch gorffenedig, hyd yn oed mewn ffurf wedi'i newid, gan gynnwys:

- adchwanegion wedi'u cario trosodd;
- adchwanegion a ddefnyddir fel cymhorthion prosesu;
- toddyddion a chyfryngau ar gyfer adchwanegion neu gyflasynnau; ac
- unrhyw sylweddau eraill a ddefnyddir fel cymhorthion prosesu.

11. A yw'r rheolau newydd yn mynnu bod pob cynhwysyn y gwyddys ei fod yn achosi alergedd yn cael ei ddatgan? *Rheoliad 12 ac Atodlen AA1*

11.1 Nac ydynt. Dim ond y cynhwysion a nodir yn Atodlen AA1 i'r Rheoliadau a'u deilliadau fydd yn peri bod angen rhoi gwybodaeth alergen.

11.2 Mae'r cynhwysion a restrir yn Atodlen AA1 yn cynnwys y canlynol:

- Grawnfwydydd yn cynnwys glwten (sef, gwenith, rhyg, barlys, ceirch, gwenith yr Almaen, camut neu eu rhywogaethau hybrid)
- Cramenogion
- Pysgod
- Wyau
- Cnau mwnci
- Ffa soia
- Llaeth
- Cnau (sef, cnau almon, cnau cyll, cnau Ffrengig, cashiw, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistachio, cnau macadamia a chnau Queensland)
- Seleri
- Mwstard
- Hadau sesame
- Sylffwr deuocsid a sylffitau ar lefel sydd dros 10mg/kg neu 10mg/litr wedi'u mynegi fel SO_2

11.3 Gall y rhestr hon gael ei diwygio neu ei hadolygu gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ôl y galw os bydd data priodol wedi'i ddilysu'n wyddonol (yn seiliedig ar farn yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd - EFSA) ar gael, a gall olygu ychwanegu neu ddileu rhai cynhwysion neu gynhyrchion. Mae'r Comisiwn wedi nodi hefyd y gall gyhoeddi cyfarwyddyd technegol ar gyfer dehongli'r rhestr, lle tybir bod angen hynny.

12. Cyfarwyddyd ar ba fwydydd sy'n dod o fewn y rhestr yn Atodlen AA1

Rheoliad 12 ac Atodlen AA1

12.1 Dyma gyfarwyddyd a chyngor arferion gorau ar gwmpas pob cynhwysyn alergenig yn Atodlen AA1 i'r Rheoliadau. Dylai'r termau a ddefnyddir wrth restru cynhwysion alergenig fod yn debyg iawn i'r rhai a ddefnyddir yn rhestr Atodlen AA1 er mwyn osgoi dryswch i'r defnyddiwr. Er nad oes canllaw swyddogol o ran y termau y dylid eu defnyddio ym mhob achos, lle mae rhywogaethau wedi'u nodi (er enghraifft ar gyfer grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten ac ar gyfer cnau) yr enwau cyffredin a restrir yw'r rhai y dylid eu defnyddio wrth labelu. Mewn achosion eraill, rhoddir cyfarwyddyd yma, yn seiliedig ar farn EFSA (barn y Panel Gwyddonol ar Gynhyrchion Dieteteg, Maethiad ac Alergeddau, Rhif y Cais: EFSA-Q-2003-016 a fabwysiadwyd ar 19 Chwefror 2004.
Gwefan: http://www.efsa.eu.int/science/nda_opinions_nda_04_en1.pdf).

12.2 ***Grawnfwydydd yn cynnwys glwten:*** Mae'r rheoliadau'n diffinio'r rhain fel: gwenith, rhyg, barlys, ceirch, gwenith yr Almaen, camut neu eu rhywogaethau hybrid. Ni fyddai mathau eraill o rawnfwydydd yn cynnwys glwten felly yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y rheolau newydd hyn. Nid oes gofyniad ar gyfer cynnwys glwten yn y rhestr cynhwysion, ond gall gweithgynhyrchwyr sy'n dymuno ei ddatgan wneud hynny mewn bocs rhybudd/gwybodaeth am alergau.

12.3 ***Wyau*:** Nid yw'r rheolau newydd yn nodi wyau unrhyw rywogaeth, ond mae 'wyau' yn cyfeirio at wyau ieir dodwy yn ogystal ag wyau adar eraill, ee brwyliaid, hwyaid, twrcwn, soflieir, gwyddau, gwylanod, a ieir gini.

12.4 ***Pysgod***: Nid yw'r rheolau newydd yn enwi unrhyw rywogaeth o bysgod. Fodd bynnag, mae 'pysgod' yn cynnwys pysgod o bob rhywogaeth o bysgod a

chynhyrchion pysgod. Dylai'r enw cyffredin (ee penfras, macrell) fod yn ddigon i nodi bod cynnyrch yn cynnwys 'pysgod', ond os nad yw'n amlwg bod y cynnyrch yn cynnwys pysgod dylid defnyddio'r term 'pysgod' a nodi'n glir bresenoldeb unrhyw bysgodyn egsotig. Mae darpariaethau'r termau generig ond yn caniatáu i'r enw cyffredin "pysgod" gael ei ddefnyddio mewn rhestr gynhwysion lle nad oes unrhyw gyfeiriad arall at rywogaeth o bysgod ar y label. Mae rhestr o enwau rhywogaethau cyffredin i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o bysgod yn yr atodlen i Reoliadau Labelu Pysgod (Lloegr) (OS 2003 Rhif 461) a deddfwriaeth gyfochrog mewn mannau eraill yn y DU.

12.5 ***Cramenogion*****:** Nid yw'r rheolau newydd yn enwi unrhyw rywogaethau o gramenogion. Fodd bynnag, mae 'cramenogion' yn cynnwys yr holl rywogaethau o gramenogion (er enghraifft cimwch, cranc, corgimwch a langwstîn). Er ei bod yn hysbys bod molysgiaid yn achosi adwaith alergaidd yn y rhai sy'n dueddol o fod ag alergedd, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr o alergenau penodol ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn wedi nodi y bydd yn gofyn am farn yr EFSA ar y mater yn y dyfodol.

12.6 ***Canu Mwnci***: Er y cyfeirir at y rhain fel cnau daear neu gnau mwnci dylid defnyddio'r term 'pysgnau' at ddibenion labelu alergenau, gan mai dyma'r term a ddefnyddir yn y Gyfarwyddeb.

12.7 ***Ffa soia***: Yn yr achos hwn byddai termau megis 'soia' neu 'soi' yn ddigonol i nodi'r tarddiad ffa soia.

12.8 ***Llaeth***: Nid yw'r rheolau newydd yn diffinio unrhyw rywogaeth o laeth, ond deallwn fod hyn nid yn unig yn cynnwys llaeth y fuwch ond hefyd llaeth defaid, geifr a byfflos ac ati. Dan reolau labelu bwyd cyffredinol, nid oes gan gynhyrchion llaeth, fel caws, menyn, llaeth wedi eplesu a hufen restr gynhwysion dan rai amgylchiadau. Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn dal i dderbyn gwybodaeth angenrheidiol i nodi presenoldeb llaeth yn glir mewn achosion o'r fath, dylid dilyn y cyngor canlynol. Ystyrir bod defnyddio enwau gwerthu fel 'caws', 'menyn', 'hufen' a 'iogwrt' yn cyfeirio'n glir at sylfaen llaeth y cynhyrchion hyn. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen cyfeiriad pellach at 'laeth'. Ond dylai labeli cynhyrchion llaeth anghyfarwydd a ddefnyddir fel cynhwysion (ee fromage frais, Mascarpone, Cantal, cwarc) neu gynhyrchion a werthir dan enw nad yw'n cyfeirio'n glir at laeth, mewn deunydd pacio anhryloyw neu ar silff nad yw'n cynnwys cynhyrchion llaeth, wneud cyfeiriad clir at laeth. Dylid datgan elfennau sy'n deillio o laeth hefyd, fel casein, maidd a lactos, gyda chyfeiriad at laeth.

12.9 ***Cnau***: Mae'r rheolau newydd yn rhestru'r rhain fel: cnau almon, cnau cyll, cnau Ffrengig, cashiw, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistachio, cnau macadamia a chnau Queensland. Nid yw mathau eraill o gnau a bwydydd eraill a elwir yn gnau, er enghraifft, cnau pîn a chnau coco wedi'u cynnwys felly yng nghwmpas y rheolau newydd. Fodd bynnag, mae'n hysbys hefyd bod cnau castan a chnau pîn (nad ydynt yn gnau yn ôl y diffiniad botaneg) yn gallu achosi alergedd i rai pobl. Byddai'n arfer da felly i'w cynnwys yn y gweithdrefnau trin a labelu alergenau.

12.10 ***Seleri***: Defnyddir y term hwn yn generig yn y Rheoliadau i gyfeirio at seleri (coes halogen) a seleriac (gwraidd seleri). Byddai'n arfer da i ddefnyddio termau sy'n gwahaniaethu rhwng seleri a/neu seleriac er mwyn nodi natur y cynhwysyn i ddefnyddwyr. Mae'r term 'seleri hefyd yn cynnwys had seleri.

12.11 ***Mwstard***: Mae'r term yn cyfeirio at y planhigyn mwstard a ffurfiau eraill sy'n tarddu ohono, megis dail, hadau sy'n egino, blawd mwstard, mwstard bwrdd ac olewau mwstard. Dylid defnyddio'r termau priodol wrth labelu.

12.12 ***Hadau sesame***: Mae hyn y cyfeirio'n glir at hadau sesame ond byddai cynhyrchion sy'n deillio ohono megis tahini ac olew sesame hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i labelu deilliadau alergen.

12.13 ***Sylffwr deuocsid a sylffitau ar lefel mwy na 10mg/kg neu 10mg/litr wedi'u mynegi fel SO_2***: Er y gall rhai bwydydd gynnwys sylffwr deucosid a sylffitau yn naturiol (er enghraifft, garlleg a rhai ffrwythau sych), mae rheolau labelu bwyd ond yn berthnasol i gynhwysion a ychwanegwyd yn fwriadol wrth baratoi bwyd. Mae'r rheolau yn nodi bod rhaid i'r cynhwysyn gael ei labelu pan fo bwydydd yn cynnwys mwy na'r lefel a nodir uchod (wedi'i gyfrifo yn nhermau cyfanswm yr SO_2 yn y cynnyrch fel y'i bwyteir) h.y. wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Dylid datgan yr adchwanegyn trwy gyfeirio at y termau 'sylffwr deuocsid a sylffitau', 'sylffwr deuocsid' (neu 'SO_2)' neu 'sylffitau', gan ddibynnu ar ffurf y cynhwysyn a ychwanegwyd. Gellir defnyddio'r term 'sylffitau' hefyd fel term generig ar gyfer y cynhwysyn hwn. Hefyd, gan ddibynnu ar y sylffit arbennig sy'n bresennol, gellid defnyddio'r *enw cemegol*, er enghraifft, sodiwm metabisylffit. Ni fyddai defnyddio enw'r categori (megis cadwolyn yn achos sylffwr deuocsid) yna ei ddilyn gyda'r rhif E (cyfres E-220) sy'n cael ei ganiatáu dan y Gyfarwyddeb adchwanegion (95/2/EC) yn unig, yn ddigon. Ni fyddai defnyddio'r symbol cemegol 'SO_2' yn ddigon chwaith.

13. Sut ddylai cynhwysion alergenig gael eu nodi wrth labelu bwyd?

Rheoliad 12 ac Atodlen AA1

13.1 Lle nad yw cynhwysyn alergenig neu ei ddeilliad wedi'u nodi yn enw'r bwyd (ee finegr brag), dylid nodi'r cynhwysyn bob amser ar y label gan gyfeirio'n glir at enw'r cynhwysyn alergenig dan sylw, er enghraifft, "finegr brag (o farlys)". Er mwyn osgoi amwysedd a dryswch, dylid defnyddio geiriau i wneud y cyfeiriad hwn.

13.2 Nodwch fod Cyngor Arfer Gorau Labelu Bwyd yn Glir yr Asiantaeth eisoes yn argymell defnyddio iaith syml ac yn cyfeirio at enghreifftiau o enwau cynhwysyn argymhellol ar gyfer nodi'n gyson bod bwydydd yn cynnwys alergenau bwyd a glwten (IGD - Canllawiau Labelu Gwirfoddol ar gyfer Alergenau Bwyd a Glwten - gwefan: http://www.igd.com). Tair enghraifft eglurhaol yw "maidd (o laeth)", "cwscws (gwenith)", a "tahini (sesame)".
Gweler http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/clearlabelling.pdf

13.3 Gan nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau i osgoi ailadrodd rhestru'r un ffynhonnell alergenig ar gyfer mwy nag un cynhwysyn mewn rhestr gynhwysion, tybir y byddai'n fwy rhesymol defnyddio'r cyfarwyddyd canlynol:

- Lle mae cynhwysyn alergenig yn Atodlen AA1 eisoes wedi'i nodi'n glir ar y label, byddai'n dderbyniol peidio â gorfod ei ddatgan yr eildro fel ffynhonnell o gynhwysyn alergenig deilliadol.

- Lle mae nifer o gynhwysion yn deillio o'r un cynhwysyn alergenig byddai'n dderbyniol rhoi seren wrth eu hymyl i'w cyfeirio at gynhwysyn alergenig o

ffynhonnell unigol (ee *o soia), ar yr amod na fyddai defnyddio sêr yn achosi dryswch (ee o ran cynhwysion GM). Gellid rhoi'r cynhwysyn alergenig wedi'i gyfeirnodi mewn bocs gwybodaeth/ rhybudd alergedd ar wahân. Sylwch y bydd hwn ond yn gweithio lle mae un ffynhonnell alergen yn unig yn cael ei gyfeirnodi trwy ddefnyddio seren. Lle mae mwy nag un gall defnyddio nifer o sêr wneud y wybodaeth yn ddryslyd.

- Os defnyddir bocs gwybodaeth/rhybudd alergenau ar wahân, mae arfer gorau yn dweud y dylai gynnwys yr holl alergenau penodol yn y bwyd ac y dylai'r bocs fod yn yr un rhan â'r rhestr gynhwysion.

14. Beth am ddiodydd gyda chryfder alcohol yn ôl cyfaint (abv) o fwy na 1.2%? *Rheoliad 12*

14.1 Mae rheolau arbennig ynglŷn â diodydd alcoholaidd. Mae diodydd â chryfder alcohol yn ôl cyfaint (abv) o fwy nag 1.2% wedi'u heithrio o'r angen i restru cynhwysion dan reolau labelu bwyd cyffredinol. Yn yr achosion hyn, dylai'r label ddatgan y cynhwysyn alergenig gyda'r gair 'yn cynnwys' gyda'r enw yn Atodlen AA1 yn dilyn, oni bai ei fod eisoes yn enw'r ddiod neu unrhyw restr o gynhwysion a ddarparwyd. Dylid darparu'r wybodaeth hon mewn iaith hawdd i'w deall i ddefnyddwyr y wlad sy'n gwerthu'r cynnyrch. Ar gyfer diodydd â chryfder alcohol yn ôl cyfaint (abv) o 1.2% neu lai, lle mae angen rhestru'r cynhwysion, mae'r darpariaethau ar gyfer nodi cynhwysion alergenig a'u deilliadau yr un fath ag ar gyfer bwydydd eraill.

15. Beth am gynhwysion deilliadol? *Rheoliad 12 ac Atodlen AA1*

15.1 Mae cwmpas labelu'r alergen yn ymestyn i gynhwysion sy'n deillio o gynhwysion a restrir yn Atodlen AA1. Deëllir bod hyn yn golygu unrhyw nifer o genedlaethau o ddeilliant ac yn cymryd yn ganiataol, oni ddangosir fel arall, ei fod, o bosib, yn dal i achosi alergedd. Mae'r Comisiwn wedi amlinellu'r broses, lle, ar ôl cyflwyno data sy'n dangos nad yw cynhwysyn yn alergenig o bosib, y gall cynhwysion deilliadol nad ydynt bellach yn alergenig, yn y dyfodol, gael eu heithrio o'r gofyniad i gael eu nodi gan gyfeirio at yr enw yn Atodlen AA1. Dyma amlinelliad o amserlen y Comisiwn ar gyfer darparu rhestr o gynhwysion deilliadol.

- Rhoi gwybod i'r Comisiwn erbyn 25 Awst 2004 am astudiaethau ar y gweill i sefydlu di-alergenedd cynhwysion deilliadol.[2]

- Roedd y Comisiwn wedi'i amserlennu i benderfynu erbyn 25 Tachwedd 2004 ar restr gychwynnol o ddeilliadau i'w heithrio mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA)[3] . Byddai deilliadau ar y rhestr gychwynnol hon wedi'u heithrio o'r angen i gael eu nodi fel y rhagnodwyd yn y Gyfarwyddeb bryd hyn.

---

[2] Mae canllawiau'r Comisiwn ar goflenni ar gael drwy'r post neu ar yr e-bost (ffoniwch 020 7276 8147 neu anfonwch e-bost at labelling@foodstandards.gsi.gov.uk).

[3] Mae barn yr EFSA yn cael ei chyhoeddi ar www.efsa.eu.int

- Cyhoeddodd y Comisiwn y rhestr dros dro ar 22 Mawrth 2005 (Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/26/EC, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2005/63/EC – Atodiad i'r Canllawiau) a bydd yn cael ei chynnwys yn neddfwriaeth y DU trwy ddeddfwriaeth newydd.

- Yn seiliedig ar farn yr EFSA, bydd y Comisiwn yn penderfynu erbyn 25 Tachwedd 2007 a ddylid cadw'r eithriad ar gyfer deilliadau ai peidio. Ar ôl gwneud y penderfyniad, bydd y ddeddfwriaeth weithredu yn cael ei diwygio yn unol â hynny, a bydd cynhwysion nad ydynt yn cael eu hystyried yn alergenig yn parhau i gael eu heithrio, tra na fydd y rhai yr ystyrir eu bod yn alergenig yn cael eu heithrio bellach a bydd yn rhaid eu labelu yn unol â hynny.

15.2 Ni ystyrir bod micro-organebau sydd wedi'u bwydo ar swbstradau alergenaidd yn deillio o swbstradau alergenaidd at ddibenion labelu.

16. A oes newidiadau i'r ffordd y gellir rhestru adchwanegion a chyflasynnau?

Rheoliad 12 ac Atodlen AA1 o'u darllen gyda Rheoliad 14 Rheoliadau Labelu Bwyd fel y'u diwygiwyd

16.1 Oes. Os bydd cyflasyn neu adchwanegyn yn cynnwys cynhwysyn alergenig neu ei ddeilliad ac nad yw hyn wedi'i nodi'n glir yn yr enw y mae'r cyflasyn neu'r cynhwysyn wedi'i restru oddi tano, dylid nodi'r cynhwysyn bob amser gyda chyfeiriad clir at enw'r cynhwysyn alergenig dan sylw.

Manylion cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer pob gohebiaeth yn ymwneud â materion a amlinellir yn y cyngor hwn:

Yn Lloegr

Consumer Choice, Food Standards & Special Projects Division
Food Standards Agency
Aviation House
125 Kingsway
Llundain WC2B 6NH

Ffôn: 0207-276-8147
Ffacs: 0207-276-8193
E-bost: labelling@foodstandards.gsi.gov.uk

Yng Nghymru

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 1, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2067 8911
Ffacs: 029 2067 8918/8919
E-bost: wales@foodstandards.gsi.gov.uk

Yn yr Alban:

Food Standards Agency Scotland
St Magnus House
6th Floor
25 Guild Street
Aberdeen
AB11 6NJ

Ffôn: 01224 285155
Ffacs: 01224 285168

Yng Ngogledd Iwerddon

Food Standards Agency Northern Ireland
10C Clarendon Road
Belfast
BT1 3BG

Ffôn: 028 9041 7714
Ffacs: 028 9041 7726

Atodiad: Rhestr o gynhwysion bwyd neu sylweddau sydd wedi'u heithrio dros dro o Atodiad IIIa Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd a Chyngor Ewrop (fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfarwyddeb 2005/26/EC y Comisiwn a'i chywiro gan Gyfawryddeb 2005/63/EC y Comisiwn)

Colofn 1 **Cynhwysyn alergenaidd**	**Colofn 2** **Cynhwysion sy'n deillio o gynhwysyn alergenaidd yng Ngholofn 1 nad oes rhaid eu labelu fel alergenau**
Grawnfwydydd yn cynnwys glwten	Surop gwenith yn cynnwys dectros.[1] Maltodecstrinau gwenith. [1] Surop glwcos sy'n seiliedig ar farlys. Grawnfwydydd a ddefnyddir mewn distylladau ar gyfer gwirodydd.
Wyau	Lysosym (cynhyrchwyd o ŵy) a ddefnyddir mewn gwin. Albwmin (cynhyrchwyd o ŵy) a ddefnyddir fel cyfrwng teneuo mewn gwin a seidr.
Pysgod	Gelatin pysgod a ddefnyddir fel cludydd ar gyfer fitaminau a blasau. Gelatin pysgod neu Isinglass a ddefnyddir fel cyfrwng teneuo mewn cwrw, seidr a gwin.
Ffa soia	Olew a braster ffa soia hollol bur.[1] Tocofferolau (E306) cymysg naturiol, tocofferol D-alffa naturiol, asetad tocofferol D-alffa naturiol, sycsinad tocofferol D-alffa naturiol o ffynonellau ffa soia. Ffytosterolau ac esterau ffytyosterolau sy'n deillio o olewau llysiau a ddaw o ffynonellau ffa soia.[2] Ester stanol planhigyn a gynhyrchir o sterolau olew llysiau o ffynonellau ffa soia.
Llaeth	Maidd a ddefnyddir mewn distylladau ar gyfer gwirodydd. Lactitol. Cynhyrchion (casein) llaeth a ddefnyddir fel cyfryngau teneuo mewn seidr a gwin.
Cnau	Cnau a ddefnyddir mewn distylladau ar gyfer gwirodydd. Almonau a chnau Ffrengig a ddefnyddir i flasu gwirodydd.
Seleri	Dail ac olew hadau seleri. Oleoresin hadau seleri.
Mwstard	Olew mwstard. Olew hadau mwstard. Oleoresin hadau mwstard.

[1] A'u cynhyrchion, cyn belled nad yw'r broses y buont drwyddi yn debygol o gynyddu lefel yr alergenigrwydd a aseswyd gan yr EFSA ar gyfer y cynnyrch perthnasol y maent yn deillio ohonynt.